# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD | DEMOCRATIC SERVICES COMMITTEE |
| DYDD MAWRTH,<br>1 HYDREF 2013 am 5.00 o'r gloch | TUESDAY,<br>1 OCTOBER, 2013 at 5.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1,<br>SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1,<br>COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes, Richard Owain Jones a Dafydd Rhys Thomas

**Llafur / Labour**

J A Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Vaughan Hughes **(Cadeirydd/Chair)**, R.Meirion Jones, R G Parry OBE a Dylan Rees

**Heb Ymaelodi/Unaffiliated**

R Ll Jones a P S Rogers **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 4)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 2 Gorffennaf, 2013.

3 **GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL** (Tudalennau 5 - 10)

Cyflwyno adroddiad ar y cyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiadd Dros Dro ar Rheolwr TGCh mewn perthynas a'r uchod.

4 **HYFFORDDIANT AELODAU A CHYNLLUN DATBLYGU**

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol mewn perthynas â'r uchod.
**(ADRODDIAD I DDILYN)**

5 **ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL AR GYFER AELODAU** (Tudalennau 11 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Datblygu Adnoddau Dynol mewn perthynas â'r uchod.

6 **SIARTER CYMRU AR GYFER CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU - ADRODDIAD CYNNYDD** (Tudalennau 13 - 16)

Cyflwyno adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro mewn perthynas a'r uchod.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2013

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr D R Hughes, R Ll Jones, Richard Owain Jones, R.Meirion Jones, R G Parry OBE, J A Roberts a P S Rogers |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd,<br>Uwch Swyddog Datblygu (MW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Dylan Rees, Dafydd Rhys Thomas |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb. |

---

**1 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Peter S. Rogers yn Is-Gadeirydd

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Ebrill 2013.

**4 CYNLLUN DATBLYGU AELODAU 2013/14**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas â'r uchod.

Nododd fod cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys cyfrifoldeb am y Rhaglen Hyfforddi a Datblygu Aelodau a chyd-destun a manylder y Cynllun Datblygu Aelodau am y flwyddyn ariannol gyfredol fel yr adroddwyd arno i'r Cyngor Sir ar 23 Mai 2013.

Yn unol â'r arfer yn y gorffennol, mae'n briodol i'r Pwyllgor enwebu un o Aelodau i weithredu fel Eiriolydd Datblygu Aelodau. Argymhellir bod Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cymryd y rôl hon.

Fel arwydd o ymrwymiad yr Awdurdod i ddatblygu Aelodau, cyflwynwyd Adolygiadau Datblygiad Personol yn y sefydliad yn ystod 2012 i'r holl Aelodau etholedig. Roedd y rhain yn fodd i'r Aelodau rhoi atborth ar eu datblygiad/profiadau mewn swyddogaethau penodol ac yn fodd i roi siâp ar y gwaith o ddiweddaru'r cynlluniau datblygu hyfforddi.

Rhoes yr Uwch Swyddog Datblygu AD gefndir cryno i'r hyfforddiant a roddwyd i Aelodau etholedig ers yr etholiadau ym mis Mai.

Cododd yr Aelodau'r mater y bu nifer o sesiynau hyfforddiant i Aelodau eu mynychu yn ystod y ddau fis diwethaf. Awgrymwyd y dylid ystyried cynnull cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi gyda'r nos. Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd fod y mater yn cael ei ystyried.

**PENDERFYNWYD**

- **Cadarnhau enwebu Cadeirydd y Pwyllgor hwn yn Eiriolydd Datblygu Aelodau.**
- **Nodi y bydd y Rhaglen Hyfforddiant yn eitem sefydlog ar raglen y Pwyllgor.**
- **Nodi'r ffocws ar adolygiadau datblygiad personol i Aelodau fel rhan o'r rhaglen.**

## 5 SIARTER CYMRU AR GYFER CEFNOGI A DATBLYGU AELODAU

Cyflwynwyd - Adroddiad gwaith gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â'r Siarter Datblygu Aelodau.

Nod y Siarter yw darparu fframwaith eang ar gyfer cynllunio, hunanasesu, gweithredu ac adolygu lleol ynghyd â chymharu gydag Awdurdodau eraill a rhannu arfer dda. Mae'r Cyngor wedi gwneud ymrwymiad i ennill statws siarter er mwyn adlewyrchu ei ymrwymiad i hyfforddiant a datblygiad Aelodau a'r ffocws ar adolygiadau datblygiad personol sy'n ofynnol dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r cynnydd fel y manylir arno yn yr adroddiad.**
- **Rhoddi'r awdurdod i Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ddiweddaru Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ynglŷn â'r cyflwyniad Marc Siarter.**

## 6 DARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL

Cyflwynwyd - Adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ynglŷn â darlledu cyfarfodydd a mynychu o bell.

Dywedodd y Swyddog bod y Gweinidog dros Lywodraeth Leol a Chymunedau wedi ysgrifennu at yr holl Awdurdodau Lleol yn Ionawr 2013 ynghylch mater hyrwyddo democratiaeth leol ac ymgysylltiad cyhoeddus. Rhoddwyd i bob prif Cyngor £40k i gynorthwyo gyda gweddarlledu a mynychu o bell ynghyd â £500 ychwanegol ar gyfer bob Cyngor Cymuned i gynorthwyo'r Cynghorau Cymuned i sefydlu gwefannau. Mae angen gwario dyraniad grant yn ystod 2013/2014. Does dim sicrwydd o grantiau ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Ar hyn o bryd mae recordiadau sain o drafodaethau'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn cael eu postio i wefan y Cyngor ond nid yw'r arfer wedi ei ymestyn i Bwyllgorau eraill. O ran gweddarlledu, mae angen rhoi sylw i amryfal faterion technegol ac annhechnegol er mwyn cymryd mantais lawn o ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor a gofynion y dyfodol o ran mynychu o bell.

Bydd y grant o £500 a neilltuwyd i bob Cyngor Cymuned i ddatblygu gwefannau yn cael ei drafod ymhellach gydag Unllais Cymru.

Nododd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y bydd diweddariad manwl yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn mewn perthynas â'r eitem hon.

Nododd yr Aelodau bryderon y byddai'n rhaid i'r Cyngor dalu costau gweddarlledu a mynychu o bell yn y dyfodol.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad ac y bydd adroddiad manwl ar y cyd yn cael ei gyflwyno gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolydd Gwasanaethau TGCh.**



DRAFFT

**7** **ADRODDIAD BLYNYDDOL YR AELODAU**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ynglyn â'r gofyniad i gael Adroddiadau Blynyddol gan aelodau.

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y cafwyd ar ddeall gan Lywodraeth Cymru y bydd canllawiau statudol ar Adroddiadau Blynyddol yn cael eu cyhoeddi'n fuan. Mater i'r Awdurdod i'w penderfynu ar y dull o gyhoeddi'r adroddiad ond rhaid o leiaf gysylltu yr adroddiad i Adran yr Aelod unigol ar wefan yr Awdurdod. Paratowyd canllawiau i gynorthwyo Aelodau i baratoi adroddiadau blynyddol ac roedd y canllawiau ynghlwm wrth yr adroddiad fel Atodiad 2. Mae'n debygol y bydd y canllawiau yn cynnig eitemau sefydlog y dylid eu cynnwys megis:-

- Rôl a chyfrifoldebau gan gynnwys presenoldeb
- Gweithgareddau lleol megis cymorthfeydd a gwaith achos
- Prosiectau mawr
- Dysgu a datblygiad

**PENDERFYNWYD**

- **Nodi'r adroddiad.**
- **Mabwysiadu'r templed arfaethedig a'r canllawiau cysylltiedig yn atodiadau 2 a 3 a rhoddi'r awdurdod i'r Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd gyhoeddi canllawiau i'r Aelodau a threfnu sesiynau briffio yn unol â'r amserlen a nodwyd yn yr adroddiad.**
- **Gofyn i'r grwpiau gwleidyddol hyrwyddo yn egnïol ymysg y cyfan o'u haelodau yr angen i gwblhau Adroddiadau Blynyddol.**

**8** **RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR AM 2013/14**

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd ynghylch Rhaglen Waith y Pwyllgor.

Argymhellodd y dylai'r Pwyllgor ganolbwyntio ar y materion isod yn ei gyfarfod nesaf:-

- Y Cynllun Hyfforddi a Datblygu Aelodau
- Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau
- Darlledu Cyfarfodydd a Mynychu o Bell
- Moderneiddio arferion gwaith a'r defnydd o Ipads.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r rhaglen waith.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.10 p.m.

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**

DRAFT

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| ENW'R PWYLLGOR: | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| DYDDIAD Y CYFARFOD: | 1 HYDREF 2013 |
| TEITL: | GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL |
| AWDUR: | PENNAETH INTERIM Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD / RHEOLWR TGCh |
| AELOD PORTFFOLIO: | Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES |

**1. Cefndir**

1.1 Mae gweddarlledu cyfarfodydd yn gysylltiedig â'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol Cymru 2011 i gryfhau democratiaeth leol; y bwriad yw cryfhau strwythurau a gwaith llywodraeth leol yng Nghymru ar bob lefel a sicrhau bod Cynghorau lleol yn ymestyn allan ac yn ymgysylltu gyda phob sector o'r gymuned y maent yn eu gwasanaethu. Fodd bynnag, nid yw gweddarlledu yn ofyniad deddfwriaethol ond mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn yn gryf.

**2. Sefyllfa gyfredol Awdurdodau Cymru**

2.1 Ar hyn o bryd, mae rhai Cynghorau yng Nghymru yn gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor gan gynnwys:

- Mae **Caerdydd** yn gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn unig (cael ei letya gan Public-i)
- Mae **Sir Gaerfyrddin** yn gweddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn unig (cael ei letya gan Public-i)
- Mae **Powys** wedi defnyddio Public-i ar gyfer cyfarfodydd sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd.
- Mae **Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog** yn gweddarlledu y cyfan o'u prif gyfarfodydd gan ddefnyddio system a ddarparwyd gan Public-i am gyfnod arbrofol o 18 mis a chyda chyllid o Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**3. Sefyllfa'r Cyngor**

3.1 Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 1 Gorffennaf 2013, mae Llywodraeth Cymru yn awr wedi cynnig grant o £40,000 i bob Cyngor i gynorthwyo gyda'r gwaith o hyrwyddo democratiaeth leol ac ymgysylltiad gyda'r cyhoedd. Pwrpas y cyllid yw galluogi Cynghorau "i wneud trefniadau penodol i weddarlledu cyfarfodydd y cyngor gan gynnwys mynychu cyfarfodydd y cyngor o

bell a chynorthwyo cynghorau cymuned i gyhoeddi gwybodaeth ar y rhyngrwyd ac i sefydlu pwynt cyswllt ar y rhyngrwyd". Mae cyllid ychwanegol o £20,000 wedi ei neilltuo i gynorthwyo Cynghorau Cymuned i sefydlu gwefannau. Mae'r arian hwn wrthi'n cael ei ddosbarthu i'r Cynghorau Cymuned ar hyn o bryd.

3.2 Mae amod ynghlwm wrth y cyllid sef bod rhaid i'r Awdurdod weddarlledu o leiaf un cyfarfod (cyfarfodydd) yn ystod 2013/14 a darparu gwasanaeth mynychu o bell. Nid oes unrhyw sicrwydd o gyllid grant ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

**4. Mynychu o Bell**

4.1 Yn unol â Mesur llywodraeth Leol Cymru 2001, rhaid i awdurdodau lleol sefydlu trefniadau i Aelodau gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell. Nid yw'r gofyniad hwn wedi ei weithredu eto ond mae'n bosibl y daw i rym yn ystod Gwanwyn 2014. Derbyniwyd canllawiau drafft ar gyfer mynychu o bell i bwrpas ymgynghori a rhagwelir y bydd y canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi yn o fuan.

4.2 Bydd angen diwygio Rheolau Sefydlog y Cyngor unwaith y daw Adran 4 y Ddeddf i rym i gynnwys ac i alluogi darpariaeth o ran mynychu o bell.

4.3 Rhydd y canllawiau drafft rywfaint o hyblygrwydd o ran caniatáu i bob awdurdod benderfynu ar y math o gyfarfodydd y gellir eu mynychu o bell a sut y bydd hyn yn gweithio. Yn y cyngor a gafwyd gan Lywodraeth Cymru, mater i'r Awdurdodau lleol yw penderfynu sut i symud ymlaen gyda hyn ac i ba raddau. Bydd y dull hwn yn cwrdd â thelerau'r grant. Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol i arbrofi gyda mynychu o bell. Mae mynychu o bell o leoliad megis llyfrgell neu hyd yn oed ystafell arall yn Swyddfeydd y Cyngor yn opsiwn realistig ar gyfer ardal megis Ynys Môn a byddai'n ein galluogi i gydymffurfio gyda gofynion y grant. Mae defnyddio cyfleuster cynadleddau fideo bwrdd gwaith yn cael ei ystyried i'r pwrpas hwn.

**5. Gweddarlledu**

5.1 Byddai gweddarlledu yn caniatau i gyfarfodydd y Cyngor fod ar gael i bobl edrych arnynt ar y rhyngrwyd drwy gyfrwng cyfryngau ffrydio. Byddai'r wefan yn caniatau i'r cyhoedd edrych ar gyfarfodydd yn fyw neu'n ddiweddarach ar y wefan drwy gyfrwng archif, y cyfan y bydd y gynulleidfa ei angen yw dyfais gyda rhyngwyneb cyswllt rhyngrwyd ac mae systemau rheoli Modern.gov yn cael eu hystyried i hwyluso ymgysylltiad.

5.2 At ei gilydd, mae'r Cynghorau sy'n gweddarlledu yn dweud bod nifer y bobl sy'n gwylio'r cyfarfodydd yn fyw yn uwch na nifer y bobl sy'n mynychu cyfarfodydd a bod llawer mwy o bobl yn gwylio deunydd archif na'r nifer sy'n gwylio yn fyw.

5.3 Byddai'r offer yn cynnwys system gyfrifiadurol gyda chyfres o gamerâu wedi eu sefydlu yn y Siambr sydd â ffocws awtomatig ar yr Aelod sy'n siarad pan fydd y botwm ar ei feicroffon / meicroffon yn cael ei bwyso.

6.0 **Manteision**

6.1 Mae nifer o fanteision i hyrwyddo democratiaeth leol drwy weddarlledu:

- Gwylio cyfarfodydd yn fyw a all fod yn ddefnyddiol i bobl sy'n cael anhawster teithio i  fynychu cyfarfodydd neu y byddai'n well ganddynt wylio o leoliad arall

- Ailchwarae cyfarfodydd unwaith y maent wedi cael eu cynnal a all fod yn ddefnyddiol pan mae amser neu leoliad y cyfarfod yn anghyfleus

- Chwilio am ac edrych ar siaradwyr penodol neu eitemau rhaglen

- Llywodraethiant ac atebolrwydd tryloyw

- Gwell ymgysylltiad gyda dinasyddion yn arbennig felly'r genhedlaeth iau

- Gwell dealltwriaeth o'r broses ddemocrataidd, er enghraifft, deall penderfyniadau cynllunio

- Cwrdd â gofyniad Mesur Llywodraeth Leol Cymru o ran dwyn y cyhoedd i mewn i'r broses Sgriwtini

- Anogaeth ar gyfer safonau uchel o ran presenoldeb ac ymgysylltiad aelodau a'u hymddygiad mewn cyfarfodydd

- Dull effeithiol o gyfathrebu i swyddogion ac aelodau eraill wybodaeth a phenderfyniadau

- Oherwydd nad yw nifer o swyddogion y cyngor yn cael cyfle yn aml i fynychu neu arsylwi cyfarfodydd ffurfiol o'r cyngor, mae gweddarlledu'n gyfle gwerthfawr i fwy o swyddogion edrych ar gyfarfodydd y cyngor a'r broses ddemocrataidd a'i deall a gallai gweddarlledu (a chyfarfodydd archif) hefyd fod yn rhan ddefnyddiol o gynefino a hyfforddi swyddogion

- Cyfleoedd i aelodau ddysgu o arsylwi eu cymheiriaid a rhoi gwybodaeth i ddarpar ymgeiswyr am eu swyddogaeth o ran annog adnewyddiad democrataidd

## 7. Goblygiadau o ran Adnoddau

7.1 Cafwyd trafodaethau anffurfiol gyda chyflenwyr blaenllaw er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cynigion, y costau cysylltiedig â ph'un a yw gweddarlledu yn opsiwn ymarferol ai peidio.  Mae costau arwyddol ar gyfer gwasanaeth a reolir yn awgrymu y byddai'r grant yn cyllido cynllun peilot 2 flynedd ar gyfer datrysiad wedi ei letya yn seiliedig ar gostau blynyddol oddeutu £18k y flwyddyn ond mae hyn yn ddibynnol ar nifer o ffactorau (e.e. nifer yr oriau o weddarlledu, nifer y camerâu a pham mor soffistigedig yw'r caledwedd a ddarperir).

7.2 Costau arwyddol yn unig yw'r rhain ac maent yn cynnwys cefnogaeth a hyd at 90 awr o weddarlledu bob blwyddyn.  Mae hyn yn seiliedig ar weddarlledu 4 o gyfarfodydd y Cyngor bob blwyddyn, 12 o gyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith a 12 o gyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio.

7.3 Efallai yr hoffai'r aelodau roi barn ar y graddau y dylai gweddarlledu cyfarfodydd neu i gyfyngu gweddarlledu e.e. i gyfarfodydd pwyllgor penodol fel rhan o'r cynllun

peilot. Byddai hynny'n cael effaith ar y costau. Ymgynghorir ar hyn o bryd gydag Arweinwyr y Grwpiau ar yr agwedd hon.

7.4 Argymhellir datrysiad gweddarlledu wedi ei letya oherwydd bod hyn yn cynnwys gwasanaeth uwchraddio offer.

7.5 Y tu hwnt i'r cyfnod o 2 flynedd, byddai angen cyllid refeniw oddeutu £15k y flwyddyn am ddatrysiad wedi ei letya petai'r Cyngor yn penderfynu parhau gyda gweddarlledu.

**8. Staffio ac Aelodau**

8.1 Byddai angen adnoddau staffio i baratoi ar gyfer bob cyfarfod i sefydlu'r offer i recordio a siecio'r cysylltiadau i'r darparwr cyn y cyfarfod, bwydo'r dogfennau perthnasol i'r dudalen ar y wefan cyn y cyfarfod, a sicrhau bod yr offer yn gweithio'n iawn yn ystod y cyfarfod. Yn dilyn y cyfarfod, byddai'n rhaid rhoddi'r recordiad yn yr archif ar safle'r Cyngor gyda'r holl faterion perthnasol a chyswllt amser ac ati ar gyfer y cyfarfod. Bydd angen i staff yn y Gwasanaethau Democrataidd gael hyfforddiant i ymgymryd â'r swyddogaethau ychwanegol hyn mewn ymgynghoriad gyda Staff yr Uned TGCh.

8.2 Yn ychwanegol at hyn, efallai y bydd pwysau ychwanegol ar yr Uned Gyfieithu i roi gwasanaeth mewn cyfarfodydd a threfnu i gyfieithu trafodaethau i bwrpas gweddarlledu.

8.3 Mae cyflwyno gweddarlledu yn debygol o gael effaith sylweddol ar Aelodau a byddai'n rhai buddsoddi cryn ymdrech er mwyn sicrhau eu bod yn ymrwymo i hyn ac i oresgyn unrhyw bryderon neu anawsterau a all fod ganddynt. Gallai gweddarlledu hefyd gael effaith ar lywodraethu cyfarfodydd y cyngor. Mae darparwyr gwasanaethau gweddarlledu yn cynnwys hyfforddiant fel rhan o'r gweithrediad a byddai'n rhaid teilwrio hynny i gymryd i ystyriaeth bryderon ac anghenion yr aelodau. Byddai angen hefyd rhaglen hyfforddiant barhaus a byddai costau ynghlwm wrth hynny yn arbennig petai hyn yn cael ei ymestyn i gynnwys hyfforddiant cyfryngau a sgiliau cyflwyno.

**9. Risgiau**

9.1 Y risg sy'n gysylltiedig â pheidio â gosod unrhyw system yw y gall y Cyngor gael ei hun mewn sefyllfa lle byddai wedi colli cyfle i wella mynediad i'r cyhoedd a hynny, o bosib, ar adeg pan fydd Cynghorau eraill yng Nghymru yn symud ymlaen.

9.2 Yn ddiamheuol, mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau yn gryf i ddarparu'r cysyniad hwn.

9.3 Mae'r brif risg sy'n gysylltiedig â'r system yn ymwneud â chyllido, yn arbennig felly ar adeg pan mae cyllidebau'r Cyngor dan bwysau aruthrol. Mae cyllid grant ar gael ar gyfer cynllun peilot dwy flynedd a tuag at ddiwedd y cynllun peilot, argymhellir y dylid cynnal adolygiad i sefydlu a yw gweddarlledu cyfarfodydd wedi bod yn llwyddiannus o ran hyrwyddo democratiaeth leol ac ymgysylltiad cyhoeddus. Wedi ystyried yr adolygiad, gallai'r Cyngor benderfynu a ddylai barhau gyda'r gwasanaeth hwn i ddarparu gwasanaeth gweddarlledu yn y dyfodol.

## 10. Argymhellion

10.1 Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn argymell i'r Cyngor:

- Symud ymlaen i Weddarlledu cyfarfodydd am gyfnod arbrofol o 2 flynedd er mwyn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru gan ystyried y sylwadau ym mharagraff 7.3 ar y graddau y byddir yn gweddarlledu.

- Rhoddi awdurdod i Bennaeth Interim y Gwasanaethau Democrataidd a'r Rheolwr TGCh bwrcasu'r offer angenrheidiol yn seiliedig ar ddatrysiad wedi ei letya.

- Nodi'r sefyllfa o ran mynychu o bell fel y manylir ar hynny yn adran 4 uchod.

**Huw Jones**
**Pennaeth Interim y Gwasanaethau Democrataidd**
**16/09/13**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **1 HYDREF 2013** |
| **TEITL:** | **ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL AR GYFER AELODAU** |
| **AWDUR:** | **PRIF SWYDDOG DATBLYGU ADNODDAU DYNOL** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES** |

1. Yng Nghanllawiau Statudol Llywodraeth Cymru (sy'n mynd law yn llaw â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) ar gyfer adolygu datblygiad personol, nodir yr egwyddorion a ganlyn:

   - Rhaid rhoi i bob aelod o'r Awdurdod y cyfle i gael adolygu eu hanghenion hyfforddiant a datblygiad bob blwyddyn.
   - Rhaid i'r adolygiad gynnwys cyfle ar gyfer cyfweliad sydd wedi ei gynllunio ymlaen llaw rhwng yr Aelod a pherson cymwys.
   - Gall Awdurdodau Lleol ystyried rhoi manylion am ganlyniad y cyfweliad mewn cynllun y cytunwyd arno yn nodi'r anghenion hyfforddiant a datblygiad ar gyfer y flwyddyn i ddod.
   - Cyflwynir y cynllun datblygiad personol i'r Aelod a chaiff ei lofnodi gan yr Aelod a'r sawl sy'n adolygu. Dogfen breifat yw hon ac nid oes disgwyl iddi gael ei chyhoeddi gan yr Awdurdod na'r Aelod er bod yr Aelod yn rhydd i gyhoeddi manylion yn ei adroddiad/hadroddiad blynyddol am unrhyw gyfleon hyfforddiant neu ddatblygiad yr elwodd arnynt os yw'n dymuno gwneud hynny.
   - Gellid defnyddio'r disgrifiadau swyddogaeth fel canllaw o ran y sgiliau sydd eu hangen ar yr Aelod perthnasol.
   - Mae'r adolygiad yn asesiad o anghenion hyfforddiant a datblygiad ac nid yn adolygiad perfformiad nac ychwaith yn asesiad o ba mor dda neu ba mor wael y mae Aelod wedi cyflawni ei dd/dyletswyddau.
   - Mater i'r Awdurdod lleol yw penderfynu pwy y gellid ei ystyried fel person cymwys i gynnal cyfweliadau.

2.0 Fel rhan o'r cynllun hyfforddiant a datblygiad blynyddol a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Mai 2013, mae ymrwymiad i gefnogi aelodau i ymgymryd ag adolygiadau datblygiad personol (ADP). Cyflwynwyd yr ADP am y tro cyntaf yn ystod 2011/12 i gefnogi gwaith y Cyngor tuag at gwrdd â gofynion Siarter Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

2.1 Mae ADP yn elfen bwysig o Ddatblygiad Aelodau ac yn cyfrannu tuag at ddiweddaru cynlluniau sydd wedi eu teilwrio'n arbennig ar gyfer Aelodau unigol a Chynllun Datblygu ehangach y Cyngor. Mae'r broses hon o gymorth i nodi unrhyw gefnogaeth mentora all fod o fantais i waith yr Aelodau.

2.2 Mae sesiynau briffio i Aelodau ar y drefn ADP yn cael eu trefnu ar gyfer dechrau mis Hydref a darperir cefnogaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yr amserlen a rhagwelir ar gyfer eu cynnal ADP yn ystod Chwarter 3.

3.0 **Argymhelliad**

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac adroddir ar gynnydd i'r cyfarfod nesaf.

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **1 HYDREF 2013** |
| **TEITL:** | **ADRODDIAD CYNNYDD - SIARTER DATBLYGU AELODAU** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | **CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES** |

1.0 **Cefndir**

Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod mis Gorffennaf i ddiweddaru Aelodau ar gynnydd o safbwynt cais y Cyngor ar gyfer Statws Siarter. Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor mae'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro wedi diweddaru'r CLILC. Derbyniwyd adborth cychwynnol ac mae'n debygol bod rhai criteria wedi eu cwrdd. Cyflwynir diweddariad mewn atodlen i'r adroddiad hwn.

2.0 **Argymhellion**

- Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro i ddiweddaru'r CLILC yn unol â'r atodlen sydd ynghlwm.
- Nodi fod y cais am Statws Siarter yn eitem safonol ar raglen y pwyllgor hwn.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro**
**19/09/13**

| MEINI PRAWF | DIWEDDARWYD ERS Y CYFARFOD DIWETHAF |
|---|---|
| **A1. Bod Aelodau yn cael cefnogaeth gyda disgrifiadau rôl** | Mewn perthynas â chyrff allanol, mae CLILC wedi paratoi pecyn cymorth ar gyfer Aelodau. Bwriedir cylchredeg y pecyn cymorth i Aelodau. Nid yw disgrifiadau rôl ar gyfer cyrff allanol ar gael bob amser a rhydd y pecyn cymorth ganllawiau cyffredinol ynghylch maglau a gwrthdrawiadau gwleidyddol. Bydd y Gwasanaethau Democrataidd yn ymgynghori gyda chyrff allanol ar ddisgrifiadau rôl ac yn rhoddi i Aelodau ddisgrifiad rôl berthnasol.<br><br>**Sefyllfa Bresennol**<br><br>Mae cyfarwyddwyd CLILG i aelodau yngylch Cyrff Allanol wedi eu rhedeg. Mae cyswllt gyda Cyrff Allanoll ynghylch disgrifiadau rol heb ei gwblhau. Y bwriad fydd darparu disgrifiadau rol i aelodau yn ystod Ch3. |
| **B2. Mae trefniadau mewn llaw i'r holl Aelodau gael ADP** | Rhoddir sylw i hyn yn y cynllun hyfforddiant a datblygu a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn y cyfarfod ar 23 Mai 2013. Bwriedir cynnal adolygiadau datblygiad personol yn Ch3.<br><br>**Sefyllfa Bresennol**<br><br>Mae adroddiad penodol ynghylch ADP gerbron y Pwyllgor. |
| **B3. Bod rhaglen glir ar gyfer Cynghorwyr yn ei lle gyda threfniadau ar gyfer ei hadolygu bob blwyddyn** | Ar 23/05/13, mabwysiadodd y Cyngor gynllun hyfforddi a datblygu ar gyfer 2013/14. Eitem safonol ar y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i fonitro cynnydd.<br><br>**Sefyllfa Bresennol**<br><br>Mae adroddiad penodol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ynglyn a'r rhaglen datblygu aelodau. |
| **B6. Mae cyfrifoldeb clir mewn perthynas ag arwain y rhaglen, gyrru'r strategaeth a monitro'r canlyniadau** | Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 19/06/13 yn enwebu un o'i Aelodau i weithredu fel Eiriolwr Datblygu Aelodau. Cefnogir y rôl hon gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro. |
| **B8. Cynigir i Aelodau'r cyfle i gael eu monitro gan gymheiriaid o blith** | Fel rhan o ymestyn y rhaglen datblygu a hyfforddi aelodau i gynnwys atborth gan aelodau, mae sgôp i ystyried anghenion penodol i gefnogi swyddogaethau'r Aelodau a chyfleon mentora. Mae CLILC yn cefnogi'r dasg hon ac yn gweithio yn |

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | y lle cyntaf gyda'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith cysgodol i nodi anghenion.<br><br>**Sefyllfa Bresennol**<br><br>Bydd y broses ADP yn cynnig cyfle i dderbyn adborth gan Aelodau ynghylch mentora. |
| **C2. Gwneud trefniadau i fusnes y Cyngor fod yn hyblyg a galluogi Aelodau i gymryd rhan lawn waeth beth fo eu hamgylchiadau personol** | Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, rhaid i Awdurdodau gynnal adolygiad (o leiaf bob tymor) ynghylch a yw'n well gan yr Aelodau gynnal cyfarfodydd yn ystod y dydd neu gyda'r nos. Mae hyn yn cael ei drafod ar hyn o bryd gydag Arweinyddion y Grwpiau.<br><br>**Sefyllfa Bresennol**<br><br>Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir yn Hydref 2013. |
| **C3. Rheoli cysylltiadau a chyfathrebu (systemau i gefnogi baich gwaith yr Aelodau ac ati)** | Fel rhan o'r rhaglen Trawsnewid, mae rhaglen Rhagoriaeth Cwsmer wedi cael ei nodi. Mae Bwrdd Rhaglen wrthi'n cael ei sefydlu i ganolbwyntio ar ddarparu prosiectau penodol.<br><br>Mae Aelodau newydd wedi cael pwynt cyswllt penodol er mwyn eu cyfeirio at swyddogion perthnasol ar gyfer arweiniad ynghylch baich gwaith.<br><br>**Sefyllfa Bresennol**<br><br>Ni rhagwelir unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd. |

This page is intentionally left blank